

CYNGOR CYMUNED BETHESDA BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo
A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Ngorffwysfan
Nos Iau 26 Gorffennaf 2018

PRESENNOL:

Ward Ogwen

Y Cynghorydd Walter Williams

Y Cynghorydd Mary Jones

Y Cynghorydd Griff Morris

Y Cynghorydd Neville Hughes

Y Cynghorydd Bleddyn Williams

Y Cynghorydd Gwilym Owen

Y Cynghorydd Einir Williams

Ward Gerlan

Y Cynghorydd Linda Brown

Y Cynghorydd Ann Williams

Y Cynghorydd Dyfrig Jones

Ward Rachub

Y Cynghorydd Susan Davies

Y Cynghorydd Pearl Evans

Y Cynghorydd Godfrey Northam

1. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cyng. Einir Williams.

2. Datgan Diddordeb

Eitem 6, Partneriaeth Ogwen: Y Cyng. Griff Morris a Neville Hughes

3. Materion Brys

3.1 Arriva- cwynion wedi eu derbyn am y gwasanaeth unwaith eto. Bysiau dros awr yn hwyr yn dod o Fangor, ac unwaith roedd bysiau ar gael, roeddent yn llawn.

3.2 Gordyfiant ar y ffordd rhwng pwll glo a groeslon Gerlan

3.3 Bryn Bella- problem gwelededd wrth y gyffordd. Baneri ar y ffens ar yr ochr chwith ac gordyfiant ar ochr y ffordd i'r dde.

3.4 Cyffordd Allt Pen y Bryn i'r Stryd Fawr- problem gwelededd gyda coeden sydd wedi gordyfu yn yr ardd.

4. Cofnodion

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2018.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 Cloc Gorffwysfan-Y Clerc dal i chwilio am un addas am bris rhesymol.

5.2 Maes parcio Rachub – y ganolfan wedi ei werthu mewn egwyddor, ond y gwaith papur ar gyfer y safle heb ei newid eto.

5.3 Blodau – penderfynwyd cynnig oriau ychwanegol i'r Gweithiwr Cynnal tra bod y tywydd braf er mwyn dyfrio'r basgedi crog ar y stryd. Hefyd bod angen ail-blannu blodau ger yr arwydd 'Bethesda.'

6. Adroddiad Partneriaeth Ogwen

Canolfan Cefnfaes - adroddwyd bod y Bartneriaeth yn trafod gyda Cyngor Gwynedd cymryd prydles 3 blynedd gyda cydweithrediad Pwyllgor Cefnfaes.

7. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr

Pwyllgor Cyllid – cyflwynwyd y cyfrifon am y chwarter cyntaf o'r flwyddyn. Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i'w cymeradwyo.

Trafodwyd bod angen clirio'r torchau oddi ar y gofeb, ac hefyd glanhau'r safle.

8. Llys Dafydd

Y Cyngor yn hapus i Bartneriaeth Ogwen gymryd cyfrifoldeb llawn dros weinyddu a hyrwyddo'r safle.

9. Maes Parcio Gerlan

Penderfynwyd penodi asiant ar gyfer trafod gyda'r perchennog tir. Penderfynwyd bydd cynghorwyr Gerlan a'r Cynghorydd Paul Rowlinson yn dod yn rhan o Is-bwyllgor i drafod a trefnu'r maes parcio gyda Partneriaeth Ogwen.

10. Caeau chwarae

Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Godfrey Northam am y caeau chwarae ac bod yr Is-bwyllgor wedi meddwl bod yna le i un eitem newydd ym mhob cae chwarae, neu efallai creu un maes chwarae newydd ym Mhant Dreiniog, efallai o fewn yr un presennol. Adroddwyd bod hyn wedi ei drafod gyda swyddog o Gyngor Gwynedd, sydd yn cefnogi'r syniad mewn egwyddor.

Trafodwyd bod gan y Cyng. Rheinallt Puw syniadau ar gyfer maes chwarae hefyd, a bydd yr Is-bwyllgor yn ei gyfarfod ddechrau mis Medi i drafod ymhellach.

11. Bont Ogwen-biniau

Adroddwyd bod cwynion wedi eu derbyn am y sbwriel sy'n cael ei adael ym Mhont Ogwen. Penderfynwyd holi Cyngor Gwynedd am osod biniau yno a chael trefniant ar gyfer eu casglu.

12. Gohebiaeth

Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Gorffennaf 2018'

12.1 E-bost gan Llyfrau Llafar Cymru-cais am rodd ariannol. Penderfynwyd bydd yn cael ei ystyried ym mis Ionawr gyda'r ceisiadau eraill am rodd.

12.2 E-bost gan Cyngor Gwynedd, Gwasanaeth Ieuenctid-ychydig mwy o wybodaeth ynglŷn a'r trefniadau newydd. Nodwyd yr ohebiaeth.

12.3 E-bost gan Lexis Nexis- cyfle i brynu '10th Edition Charles Arnold Baker publication' am bris gostyngedig. Penderfynwyd bydd y Clerc yn archebu copi.

12.4 E-bost gan 'The Woodland Trust' – oes yna goeden yr hoffech roi ar y map? Penderfynwyd rhoi'r hysbyseb ar Facebook.

12.5 E-bost gan Un Llais Cymru-manylion am y gynhadledd a chyfarfod cyffredinol blynyddol 29 Medi ar faes Sioe Frenhinol Cymru.

13. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio

Penderfyniadau

C18/0459/13/LL

Bryn Celyn, 6 Ffordd Llanllechid, Rachub

Codi estyniad unllawr, dymchwel modurdy presennol, creu dau le parcio a chodi sied gardd

Penderfyniad: Caniatawyd, gydag amodau.

Ceisiadau

Dim ceisiadau

14. Taliadau

Awdurdodwyd y canlynol

Cyflogau (Gorffennaf)	£271.50
CThEM (Gorffennaf)	£67.80
Londis-papurau (Mehefin)	£29.40
Scottish Power-golau Nadolig	£48.47
Scottish Power-golau Nadolig	£24.66
Scottish Power-Gorffwysfan	£151.99
C Jackson – Llys Dafydd	£140.00
Zurich-yswiriant blynyddol	£1609.16